Disgrifiad Swydd

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd	Ymarferydd Dechrau'n Deg				
Gradd	3	**Rhif Gwerthuso'r Swydd:**	1480B	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	Nodwch y testun yma

Gwasanaeth	Atal a Chynhwysiant				
Tîm Gwasanaeth	Dechrau'n Deg				
Yn Atebol i	Uwch Ymarferydd Dechrau'n Deg				
Meysydd Cyfrifoldeb	Cliciwch yma i gynnwys testun *(enw'r timau)*.				
Nifer y staff dan ofal deiliad y swydd	Dim	Rôl yn Gyfyngedig yn Wleidyddol *(Cyfeiriwch at adran amodau arbennig)*	Nac ydy	Gwiriad Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn Ofynnol	Ydy
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w llenwi gan reolwr yn unig wrth greu swydd newydd neu ddiwygio rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Cefnogi plant yn eu dysgu a'u datblygiad mewn naill ai grŵp chwarae neu feithrinfa, yn unol â chanllawiau Dechrau'n Deg. Sicrhau y gall bob plentyn fwynhau ystod eang o gyfleoedd chwarae creadigol ac arbrofol mewn amgylchedd diogel a chroesawgar.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

1. Gallu addasu i ofynion pob lleoliad, a sicrhau bod pob plentyn yn cael croeso cynnes, sylw a gofal pan fyddant yn ymuno â'r Rhaglen Dechrau'n Deg am y tro cyntaf.
2. Gweithio'n agos gydag aelodau o'r tîm, rhieni, asiantaethau allanol a'r Rhaglen Dechrau'n Deg ehangach.
3. Ymgysylltu â rhieni Dechrau'n Deg trwy ddarparu cymorth cychwynnol, bod yn sensitif, cydymdeimlo a delio ag unrhyw bryderon, gallu cynnig cyngor a chyfeirio at asiantaethau eraill yn ôl yr angen.
4. Datblygu perthynas gref gyda'r plant trwy weithredu grwpiau gweithwyr allweddol er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
5. Dilyn canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer Diogelu fel yr argymhellir gan Gyngor Dinas Casnewydd (NCC) a staff cymorth pan fo angen. Cadw cyfrinachedd llym ar gyfer pob lleoliad gofal plant yn ymwneud â gwybodaeth a gedwir am blant a theuluoedd.
6. Cadw at yr holl bolisïau a gweithdrefnau fel y nodir gan Dechrau'n Deg, sy'n cwmpasu rheoliadau CDC ac AGC.
7. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion iechyd a diogelwch, AGC a gofynion cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â gweithrediad y lleoliadau gofal plant. Sicrhau bod y lleoliad gofal plant yn cael ei baratoi ymlaen llaw cyn dechrau'r sesiwn drwy gynnal asesiadau risg ar yr ystafell, yn yr ardd ac o'r offer. Sicrhau bod yr offer yn cael ei storio'n ddiogel a bod yr ystafell yn cael ei gadael yn daclus.
8. Cynllunio a chyflwyno gweithgareddau creadigol a dychmygus penodol sy'n briodol ar gyfer oedran a gallu'r plant dan do ac yn yr awyr agored o fewn clwb brecwast/cylch chwarae/clwb ar ôl ysgol pan fo angen. Mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd tîm a sesiynau cynllunio.
9. Hebrwng plant i ac o leoliad ar gyfer cylch chwarae, meithrinfa, clwb cofleidiol a chlwb ar ôl ysgol gan sicrhau y dilynir y weithdrefn gywir.

10. Sicrhau bod yr holl arsylwadau ac asesiadau o'r plant yn cael eu cofnodi. Myfyrio ar weithgareddau a gyflwynwyd yn y sesiwn a rhoi adborth i'r Uwch Ymarferydd er mwyn gwella cynllunio ar gyfer y dyfodol.

11. I fod yn gyfrifol am greu a chynnal portffolio unigol y plentyn mae hyn yn cynnwys nodiadau, ffotograffau a gwaith celf. Sicrhau bod gwaith celf a'r hyn y mae'r plant wedi'i gyflawni yn cael eu harddangos yn greadigol ac yn briodol o fewn y lleoliad.

12. Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel yn ddyddiol i fodloni gofynion Dechrau'n Deg a CDC a rheoliadau AGC.

13. Sicrhau bod technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol a chyson yn cael eu gweithredu sy'n sail i hyfforddiant perthnasol megis y Rhaglen Meithrin Cysylltiadau Teuluol.

14. Sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu bob dydd drwy hybu bwyta'n iach, cynyddu symudedd corfforol, iaith a datblygiad gwybyddol ac annog arferion hylendid da. Bydd gofalu am blant yn cynnwys bwydo babanod, newid cewynnau a hyfforddi'r plant y ddefnyddio'r tŷ bach/poti.

Rhaid i chi gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd ac ymddwyn mewn ffordd yn y gwaith neu'r tu allan i'r gwaith, na fyddai'n cwestiynu eich addasrwydd i weithio yn y lleoliad hwn.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad pan gafodd ei baratoi. Gall dyletswyddau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid nodweddion cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae amrywiadau o'r fath yn beth cyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	Cymhwyster perthnasol mewn Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant fel y nodir yn y Fframwaith Cymwysterau a Chredydau megis Diploma Lefel 3 mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygu Bod yn barod i ymgymryd â dysgu pellach, i gwblhau Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, fel y nodwyd o fewn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 2 flynedd. Bod yn barod i ymgymryd â dysgu pellach fel y nodwyd o fewn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru	• Cliciwch yma i gynnwys testun.
Gwybodaeth	Bod yn gyfarwydd â safonau AGC Gwybodaeth am y materion sydd gan rieni a phlant wrth ddefnyddio lleoliadau gofal plant yn y gymuned	Profiad o strategaethau i oresgyn y materion sydd gan rieni a phlant wrth ddefnyddio lleoliadau gofal plant o fewn y gymuned
Profiad	Profiad o weithio gyda phlant 0-5 oed Profiad o ddarparu gweithgareddau chwarae a dysgu wedi'u cynllunio ac sy'n briodol i'w hoedran	Profiad o weithio gyda rhieni mewn cymunedau difreintiedig Profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol
Addasrwydd a Sgiliau	Sgiliau llythrennedd cyfwerth â Lefel 3	Llythrennog TG

	Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun fel rhan o dîm ac ymdopi â lleoliad grŵp prysur Bod yn greadigol a dychmygus ym mhob agwedd o'r rôl a bod yn ymwybodol o anghenion plant sy'n cael anhawster i setlo Y gallu i gyfathrebu â phob diwylliant a thraddodiad a sicrhau bod yr un gwerth yn cael ei gynrychioli er mwyn osgoi stereoteipio hiliol a rhywiol Profiad o oruchwylio a mentora staff, myfyrwyr neu wirfoddolwyr Gallu cynnal lefel uchel o gyfrinachedd llym Sgiliau cyfathrebu rhagorol Bod yn hyderus ac yn frwdfrydig i ysgogi aelodau eraill y tîm Y gallu i fod yn hyblyg i fodloni gofynion newidiol pob lleoliad gofal plant a meithrinfa Dechrau'n Deg Gallu gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos i ddiwallu anghenion y gwasanaeth Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo'n gadarnhaol Bolisi Cyfle Cyfartal Cyngor Dinas Casnewydd	Trwydded yrru gyfredol lawn ac mae gennych yswiriant busnes Gallu cyflawni gwaith mewn grwpiau bach Siarad Cymraeg

YMDDYGIAD DISGWYLIEDIG A GWERTHOEDD

Annog a chefnogi eraill fel rhan o dîm. Rhoi arweiniad a chyngor i eraill. Tyfu perthnasoedd gwaith cadarnhaol.

Rhannu arfer da a chyfrannu at ddatblygu arferion. Cynnal agwedd realistig a chadarnhaol tuag at newid.

Cyfathrebu'n agored, gan fod yn naturiol gyda phobl er mwyn ennyn ymddiriedaeth a hyder.

Defnyddio menter i ddilyn gweithdrefnau i wneud penderfyniadau priodol. Rhowch adborth lle gellir gwella'r rhain.

Myfyrio'n onest ar fy arddull bersonol a'i effaith ar eraill a datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal	
Cyfle Cyfartal	Byddwch yn deall ac yn dangos parodrwydd i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Gofynion o Ran y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cefnogi staff wrth ddarparu hyn. Rhaid asesu pob swydd mewn perthynas â gofynion yr Iaith Gymraeg a bydd naill ai'n Gymraeg Hanfodol neu'n Ddymunol.

Gofynion Cymraeg ar gyfer y swydd hon (Gweler Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Choose an item.			
Sgiliau Gwrando / Siarad	2	Sgiliau Ysgrifennu	1	Sgiliau Darllen / Deall	1

Amodau Arbennig	
Datgeliad Manwl Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Bydd y swydd hon yn arwain at ddod i gysylltiad sylweddol â phlant, yr henoed, sâl neu anabl. Felly, mae'r Awdurdod yn mynnu eich bod, yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, yn datgelu unrhyw euogfarnau troseddol, yn rhwymo gorchmynion neu rybuddion, gan gynnwys y rhai a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi darfod. Rhaid i chi lenwi'r adran berthnasol ar y ffurflen gais - bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn amodol ar Ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylai rhagor o wybodaeth am Ddatgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dull y Cyngor o recriwtio cyn-droseddwyr ddilyn y ffurflen gais, os nad ydynt yn cysylltu â'r person a enwir yn yr hysbyseb
Yn Gyfyngedig yn Wleidyddol	Ddim yn berthnasol
Arall (gan gynnwys anghenion corfforol ac amodau gweithio)	Bydd gofyn i ddeiliad y swydd gasglu a danfon offer chwarae o wahanol leoliadau. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fod yn hyblyg ac efallai y bydd y rôl yn gofyn am weithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a darparu yswiriant ar gyfer holl gylchoedd chwarae a meithrinfa Dechrau'n Deg, yn unol â chyfarwyddyd Rheolwr Blynyddoedd Cynnar a Chwarae Dechrau'n Deg Bydd y swydd hon yn gofyn bod eich yswiriant car yn cynnwys yswiriant ar gyfer defnydd busnes Bydd gwyliau blynyddol yn cael eu cymryd pan fydd Dechrau'n Deg ar gau

Hyfforddiant

Ymgymryd â phob hyfforddiant gorfodol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich hun.

Er mwyn diwallu anghenion newidiol y swydd, bydd hyfforddiant yn cefnogi staff i gyflawni rolau allweddol penodol yn y lleoliad gofal plant (gan gynnwys Diogelu ADY dynodedig, Warden Tân, Cymorth Cyntaf, Iechyd a Diogelwch).

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma.

MANYLION Y SWYDD

Teitl y Swydd	Dirprwy Ymarferydd Dechrau'n Deg				
Gradd	4	**Rhif Gwerthuso'r Swydd:**	2336b	**Dyddiad Gwerthuso/Adolygu**	Nodwch y testun yma

Gwasanaeth	Atal a Chynhwysiant				
Tîm Gwasanaeth	Dechrau'n Deg				
Yn Atebol i	Uwch Ymarferydd Dechrau'n Deg				
Meysydd Cyfrifoldeb	Rheoli Darpariaeth Gofal Plant yn absenoldeb Uwch-ymarferwyr.				
Nifer y staff dan ofal deiliad y swydd	Dim	**Rôl yn Gyfyngedig yn Wleidyddol** *(Cyfeiriwch at adran amodau arbennig)*	Nac ydy	**Gwiriad Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn Ofynnol**	Ydy
Ffurflen Gwerthuso Swydd (i'w llenwi gan reolwr yn unig wrth greu swydd newydd neu ddiwygio rôl bresennol)					

DIBEN Y SWYDD

Cefnogi datblygiad plant mewn naill ai cylch chwarae neu feithrinfa yn unol â darpariaeth canllawiau Dechrau'n Deg i sicrhau bod pob plentyn yn profi ystod eang o gyfleoedd chwarae mewn amgylchedd diogel a chroesawgar.

MEYSYDD CANLYNIADAU ALLWEDDOL

1. Gallu bod yn hyblyg a goruchwylio'r lleoliad gofal plant yn absenoldeb yr Uwch Ymarferydd yn narpariaeth Cylch Chwarae Dechrau'n Deg ac aros ar y safle er mwyn gallu rheoli unrhyw faterion a allai godi.
2. Sicrhau bod pob elfen o'r drefn ddyddiol yn cael ei chynnal a bod adborth yn cael ei ddarparu i'r Uwch Ymarferydd ar ôl dychwelyd. Ar ôl pob sesiwn, adrodd a chofnodi yn ôl yr angen unrhyw faterion yn ymwneud â chyflwyno'r sesiwn i'r Uwch Ymarferydd.
3. Cynorthwyo'r Uwch Ymarferydd i gynnal asesiadau cyfrinachol a chofnodion o'r plant a rhannu gwybodaeth yn unol â hynny i brotocolau Dechrau'n Deg a chynorthwyo'r Uwch Ymarferydd i gyrraedd ei dargedau a therfynau amser ar gyfer anghenion y lleoliad.
4. Goruchwylio a gweithredu rhaglen waith ar gyfer myfyrwyr a gwirfoddolwyr, sy'n cynnwys cysylltu â cholegau lleol, neilltuo aelod o staff i ddarparu rôl fentora a sicrhau bod myfyrwyr yn cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r lleoliad.
5. Gallu addasu i ofynion pob lleoliad a sicrhau bod pob plentyn yn cael croeso cynnes, sylw a gofal pan fyddant yn ymuno â'r rhaglen Dechrau'n Deg am y tro cyntaf.
6. Ymgysylltu â rhieni plant sydd yn rhan o Dechrau'n Deg trwy ddarparu cymorth cychwynnol, bod yn sensitif, cydymdeimladol a delio ag unrhyw bryderon, gallu cynnig cyngor a chyfeirio at asiantaethau eraill yn ôl yr angen.
7. Gweithio'n agos gydag aelodau o'r tîm, rhieni, asiantaethau allanol a rhaglen ehangach Dechrau'n Deg.
8. Datblygu perthynas gref gyda'r plant trwy weithredu grwpiau gweithwyr allweddol er mwyn cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol.
9. Dilyn canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer Diogelu fel yr argymhellir gan Gyngor Dinas Casnewydd (NCC) a staff cymorth pan fo angen. Cadw cyfrinachedd llym ar gyfer pob lleoliad gofal plant yn ymwneud â gwybodaeth a gedwir am blant a'u teuluoedd.
10. Cadw at yr holl bolisïau a gweithdrefnau fel y nodir gan Dechrau'n Deg, sy'n cwmpasu rheoliadau Cyngor Dinas Casnewydd ac AGC

11. Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion iechyd a diogelwch, AGC a gofynion cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â gweithrediad y lleoliad gofal plant. Sicrhau bod y lleoliad gofal plant yn cael ei baratoi ymlaen llaw cyn dechrau'r sesiwn drwy gynnal asesiadau risg ar yr ystafell, yr ardd ac o'r offer. Sicrhau bod yr offer yn cael ei storio'n ddiogel a bod yr ystafell yn cael ei gadael yn daclus.

12. Darparu gweithgareddau creadigol a dychmygus penodol sy'n briodol ar gyfer oedran a gallu'r plant yn y lleoliad dan do ac yn yr awyr agored o fewn clwb brecwast (Gaer) /cylch chwarae/clwb ar ôl ysgol (Gaer) pan fo angen.

13. Hebrwng plant i ac o leoliad ar gyfer cylch chwarae, clwb cofleidiol ac ar ôl ysgol yn lleoliad Gofal Plant Gaer gan sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei dilyn.

14. Sicrhau bod yr holl arsylwadau ac asesiadau o'r plant a gynhelir yn cael eu cofnodi. Myfyrio ar weithgareddau a gyflwynwyd yn y sesiwn a rhoi adborth i'r Uwch Ymarferydd er mwyn gwella cynllunio ar gyfer y dyfodol.

15. I fod yn gyfrifol am greu a chynnal portffolio unigol y plentyn mae hyn yn cynnwys nodiadau, ffotograffau a gwaith celf. Sicrhau bod gwaith celf a'r hyn y mae'r plant yn ei gyflawni yn cael eu harddangos yn greadigol yn briodol yn y lleoliad.

16. Sicrhau bod technegau rheoli ymddygiad cadarnhaol a chyson yn cael eu gweithredu sy'n sail i hyfforddiant perthnasol megis y rhaglen meithrin cysylltiadau teuluol.

17. Sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu bob dydd drwy hybu bwyta'n iach, cynyddu symudedd corfforol, cynyddu iaith a datblygiad gwybyddol ac annog arferion hylendid da. Bydd gofal plant yn cynnwys newid cewynnau, hyfforddi'r plant sut i ddefnyddio'r toiled/poti.

18. Sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cynnal a'u cadw'n ddiogel yn ddyddiol i fodloni gofynion y Coleg Cenedlaethol, Dechrau'n Deg a rheoliadau AGC.

Mae'r disgrifiad swydd hwn yn nodi prif feysydd canlyniadau'r swydd ar y dyddiad pan gafodd ei baratoi. Gall dyletswyddau o'r fath amrywio o bryd i'w gilydd heb newid nodweddion cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb. Mae amrywiadau o'r fath yn beth cyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

MANYLEB PERSON		
	HANFODOL	**DYMUNOL**
Cymwysterau	• Cymhwyster perthnasol mewn Blynyddoedd Cynnar/Gofal Plant fel y nodir o fewn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru megis Diploma Lefel 3 mewn Gofal Plant, Dysgu a Datblygiad • Bod yn barod i ymgymryd â dysgu pellach, i gwblhau Lefel 3 mewn Gwaith Chwarae, fel y nodwyd o fewn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn 2 flynedd • Bod yn barod i ymgymryd â dysgu pellach, i symud ymlaen i Lefel 5, fel y nodwyd o fewn Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru	• Cliciwch yma i gynnwys testun.
Gwybodaeth	• Gwerthfawrogiad o anghenion grwpiau difreintiedig • Gwybodaeth am yr ardal leol • Gwybodaeth a phrofiad o fodloni safonau AGC • Gwybodaeth am y materion sydd gan rieni a phlant wrth ddefnyddio lleoliadau gofal plant yn y gymuned	• Profiad o strategaethau i oresgyn problemau, mae rhieni a phlant yn eu hwynebu wrth gael mynediad i'r lleoliad gofal plant o fewn y gymuned

	• Deall a dangos parodrwydd i hyrwyddo'n gadarnhaol Bolisi Cyfle Cyfartal Cyngor Dinas Casnewydd	
Profiad	• Profiad o weithio gyda phlant 0 - 5 oed • Profiad o ddarparu gweithgareddau chwarae a dysgu wedi'u cynllunio ac sy'n briodol i'w hoedran • Profiad o weithio gyda rhieni mewn cymunedau difreintiedig	• Profiad o weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol
Addasrwydd a Sgiliau	• Sgiliau llythrennedd cyfwerth â TGAU A-C • Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun fel rhan o dîm ac ymdopi â lleoliad grŵp prysur • Bod yn greadigol a dychmygus ym mhob agwedd ar y rôl ac yn sensitif i'r anghenion sy'n delio â phlant ansefydlog • Y gallu i gyfathrebu â phob diwylliant a thraddodiad a sicrhau bod yr un gwerth yn cael ei gynrychioli er mwyn osgoi stereoteipio hiliol a rhywiol • Profiad o oruchwylio a mentora staff, myfyrwyr neu wirfoddolwyr • Gallu cynnal lefel uchel o gyfrinachedd llym • Sgiliau cyfathrebu rhagorol • Bod yn hyderus ac yn frwdfrydig i allu ysgogi aelodau eraill y tîm • Y gallu i fod yn hyblyg i fodloni gofynion newidiol pob lleoliad gofal plant a meithrinfeydd • Gallu gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos i ddiwallu anghenion y gwasanaeth	• Yn gallu defnyddio TG • Trwydded yrru gyfredol lawn ac mae gennych yswiriant busnes • Gallu cyflawni gwaith mewn grwpiau bach • Siarad Cymraeg

YMDDYGIAD DISGWYLIEDIG A GWERTHOEDD

Trefnu, dyrannu a gwirio gwaith. Dangos ymddiriedaeth mewn eraill gan wybod pryd i gefnogi a phryd i gamu'n ôl.

Adnabod a defnyddio arfer da i ddatrys problemau. Cymerwch fenter i awgrymu gwelliannau, gan rannu hyn yn adeiladol.

Cyfathrebu'n agored, gan fod yn syml gyda phobl i ennyn ymddiriedaeth a hyder.

Dilyn gweithdrefnau a rheolau. Rhowch adborth lle gellir gwella'r rhain.

Myfyriwch yn onest ar fy arddull bersonol a'i effaith ar eraill a datblygu fy sgiliau fel y gallaf addasu fy steil fel y bo'n briodol.

Cyfle Cyfartal

Cyfle Cyfartal	Byddwch yn deall ac yn dangos parodrwydd i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd.

Gofynion o Ran y Gymraeg

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth o'r un safon uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg a bydd yn cefnogi staff wrth ddarparu hyn. Rhaid asesu pob swydd mewn perthynas â gofynion yr Iaith Gymraeg a bydd naill ai'n Gymraeg Hanfodol neu'n Ddymunol.

Gofynion Cymraeg ar gyfer y swydd hon (Gweler Asesiad Sgiliau Iaith Gymraeg ar gyfer lefelau sgiliau)

Sgiliau Iaith Gymraeg		Choose an item.			
Sgiliau Gwrando / Siarad	1	Sgiliau Ysgrifennu	1	Sgiliau Darllen / Deall	1

Amodau Arbennig

Datgeliad Manwl Gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	DILEU FEL Y BO'N BRIODOL - Ddim yn Gymwys/Bydd y swydd hon yn arwain at gyswllt sylweddol â phlant, yr henoed, sâl neu anabl. Felly, mae'r Awdurdod yn mynnu eich bod, yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975, Deddf Plant 1989 a/neu Ddeddf yr Heddlu 1997, yn datgelu unrhyw euogfarnau troseddol, yn rhwymo gorchmynion neu rybuddion, gan gynnwys y rhai a fyddai fel arfer yn cael eu hystyried fel rhai sydd wedi darfod. Rhaid i chi lenwi'r adran berthnasol ar y ffurflen gais - bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd os yw'r adran hon yn anghyflawn. Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, byddwch yn amodol ar Ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dylai rhagor o wybodaeth am Ddatgeliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a dull y Cyngor o recriwtio cyn-droseddwyr ddilyn y ffurflen gais, os nad ydynt yn cysylltu â'r person a enwir yn yr hysbyseb
Yn Gyfyngedig yn Wleidyddol	Ddim yn berthnasol
Arall (gan gynnwys anghenion	Yn absenoldeb gofalwr neu ddeiliad allwedd arferol y lleoliad, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am agor/cau'r lleoliad.

Amodau Arbennig	
corfforol ac amodau gweithio)	Mynychu hyfforddiant i fodloni gofynion Fframwaith Cymwysterau Gofal Cymdeithasol Cymru a chanllawiau Dechrau'n Deg. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fod yn hyblyg ac efallai y bydd angen gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod y gwyliau. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill a darparu gwasanaeth ar gyfer holl gylchoedd chwarae a meithrinfa Dechrau'n Deg, yn unol â chyfarwyddyd Rheolwyr y Blynyddoedd Cynnar a Chwarae. Gwyliau Blynyddol Bydd gwyliau blynyddol yn cael eu cymryd pan fydd Dechrau'n Deg ar gau.

Hyfforddiant
Ymgymryd â'r holl hyfforddiant gofynnol sy'n berthnasol i'r rôl a bod yn gyfrifol am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun.

I gael rhagor o wybodaeth am weithio i Gyngor Dinas Casnewydd, ewch i www.casnewydd.gov.uk neu cliciwch yma.